**Asesiad Effaith Cryno**

**Mesurau Sylfaenol – Lefel Rhybudd 0**

## Cyflwyniad

Cafodd Asesiad Effaith Cryno ei lunio ym mis Rhagfyr 2020 ar ôl cyflwyno system o lefelau rhybudd yng Nghymru. Cafodd yr Asesiad Effaith Cryno diweddaraf ei lunio yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 15 Gorffennaf.

Mae'r Cynllun Rheoli Coronafeirws diwygiedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd yr Asesiad Effaith Cryno ar gyfer y Cynllun Rheoli yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith y llacio cyfyngiadau a fydd o bosibl yn cael ei wneud neu ei ddangos yn ystod yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 5 Awst 2021 ar ddemograffeg wahanol mewn cymdeithas yng Nghymru. Byddai'r mesurau llacio posibl yn dod i rym ar 7 Awst ac yn symud Cymru'n ffurfiol i Lefel Rhybudd Sero. Mae llacio'r cyfyngiadau fel a ganlyn;

- Dim cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n cael ymgynnull dan do neu yn yr awyr agored

- Dim cyfyngiadau ar nifer y bobl mewn digwyddiadau dan do neu yn yr awyr agored, gyda chapiau'n cael eu pennu gan asesiad risg (gan ddisgwyl mwy o ddulliau rheoli dan do fel awyru, olrhain cysylltiadau a lliniaru risgiau i staff)

- Gall pob busnes arall agor (bydd angen trafodaeth bellach gyda chlybiau nos a'r sector adloniant i oedolion er mwyn ystyried defnyddio'r mesurau hyn yn y lleoliadau hynny).

## Egwyddorion ar gyfer mesurau llinell sylfaen

Mae'r mesurau arfaethedig wedi cael eu dylunio ar sail yr egwyddorion arfaethedig canlynol, er mwyn symlrwydd ac eglurder:

a. Dylai'r llinell sylfaen ddarparu'r lefel uchaf bosibl o lacio, gan gydnabod niwed ehangach y cyfyngiadau, ar yr un pryd â chadw'r feirws ar lefelau y gellir eu rheoli.

b. Bydd ail-adeiladu'r economi, dychwelyd i hyfywedd ariannol i fusnesau a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy arferol yn nod allweddol.

c. Dylai'r cyfyngiadau sy'n weddill ar ryddid unigolion fod yn rhai sy'n cael effaith niweidiol gymharol fach ac nad ydynt yn cyfrannu at gronni anghydraddoldebau neu niwed ehangach, pan fo'n bosibl.

d. Dylai mesurau helpu i wreiddio ymddygiad a thueddiadau cadarnhaol hirdymor sy'n gysylltiedig â nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwahaniaethau rhwng Lefel Rhybudd 1 a'r mesurau llinell sylfaen a awgrymir i'w gweld isod.

- Byddai clybiau nos a lleoliadau adloniant i oedolion yn cael agor ar yr amod eu bod yn gallu asesu a lliniaru unrhyw risg o drosglwyddo.

- Ni fyddai unrhyw gyfyngiadau ar y niferoedd sy'n cael cwrdd dan do neu yn yr awyr agored, ond o ran safleoedd a digwyddiadau sy'n cael eu rheoleiddio, byddai'r niferoedd sy'n cael eu caniatáu yn cael eu pennu drwy asesiad risg wrth gymryd camau rhesymol sydd eu hangen i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaeniad.

- Gellid llacio'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn rhai lleoliadau, ac ar gyfer lleoliadau fel ysgolion, gellid pennu hynny drwy asesiadau risg penodol i'r safle sy'n gysylltiedig â fframwaith wedi'i gyd-gynhyrchu ar gyfer llacio mesurau.

- Byddai'r gofynion manwl ar gyfer mesurau rhesymol, gan gynnwys y statws arbennig a roddir i bellter corfforol o 2m a'r mesurau penodol iawn ar gyfer manwerthu a lletygarwch yn cael eu symud i ganllawiau ond byddent yn parhau i gael eu cynghori a'u hystyried ochr yn ochr â mesurau eraill pan fydd asesiadau risg yn cael eu cynnal.

## Y Cefndir Deddfwriaethol

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae fersiwn wedi'i gydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf ar gael ar LLYW.CYMRU.

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau posibl a wnaethpwyd i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r Adolygiad 21 Diwrnod ar 05 Awst 2021

## Adolygu rheoliadau'r cyfyngiadau

Adolygir y Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

## Asesiadau o'r Effaith

**Mae'r asesiadau effaith canlynol sy'n ymwneud â'r mesurau llacio a wnaethpwyd ac sydd i'w gweld yng ngweddill y ddogfen;**

i. Cwrdd ag unrhyw nifer o bobl dan do am unrhyw reswm gan gynnwys lleoedd preifat, lletygarwch a llety gwyliau. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfarfod ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau

ii. Lleoliadau adloniant i oedolion a chlybiau nos

## i. Cwrdd ag unrhyw nifer o bobl dan do am unrhyw reswm gan gynnwys lleoedd preifat, lletygarwch a llety gwyliau. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfarfod ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau

### EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae effeithiau negyddol mawr yn gysylltiedig â chyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (21 i 27 Mehefin 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 25% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 11% yn teimlo'n unig drwy'r amser neu'n aml. Roedd tua 27% o bobl yn teimlo'n ynysig o bryd i'w gilydd, gyda 10% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu'n aml. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y gyfran a oedd yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn 14%. Mae hyn er gwaethaf y cyfyngiadau presennol sy'n caniatáu aelwydydd estynedig a'r rheol o chwech mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio. Dylai caniatáu'r rheol chwech dan do helpu llesiant y rheini a allai deimlo'n unig neu'n ynysig, drwy ganiatáu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cymdeithasu.

Roedd ton flaenorol o arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru (10 i 16 Mai 2021) wedi dadansoddi tueddiadau cwestiynau dethol am lesiant pobl yn ystod y pandemig. Dywedodd 42% o'r ymatebwyr fod eu hiechyd meddwl yn waeth adeg yr arolwg o'i gymharu â chyn y pandemig, sy'n cyfateb i dros 1 miliwn o oedolion. Roedd menywod a phobl iau yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y pandemig.[1]

Lluniodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad hefyd ym mis Mai 2021 yn edrych ar effaith y Coronafeirws ar iselder ymysg oedolion yn y DU. Roedd hyn yn dangos bod tua un rhan o bump o oedolion yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, sydd bron i ddwywaith y cyfraddau a adroddwyd cyn y pandemig. Roedd hefyd yn dangos bod oedolion iau, menywod, y rheini nad

---

[1] https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/how-are-you-doing/how-are-we-doing-in-wales-reports/week-58-report-how-are-we-doing-in-wales1/

oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl, pobl anabl neu'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn dioddef o iselder.[2]

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Gan fod y newidiadau hyn yn canolbwyntio ar alluogi mwy na 6 o bobl i gwrdd mewn cartrefi preifat, mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar yr economi. Gallai arwain at bobl yn teithio ymhellach ac yn amlach i gwrdd yng nghartrefi pobl eraill. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ymylol os yw'n annog pobl i wario mwy ar nwyddau a gwasanaethau o ganlyniad i fwy o gymdeithasu. I'r gwrthwyneb, os yw pobl yn dewis gwneud mwy o weithgareddau gartref yn hytrach na mynd allan, gallai hyn gael effaith negyddol ymylol os yw pobl yn gwario llai. Mae'n debygol y bydd y ddau effaith hyn yn fach iawn ac yn cael effaith fach iawn ar allbwn economaidd.

Fodd bynnag, gallai cael gwared ar gyfyngiadau ar y niferoedd sy'n cael aros mewn llety gwyliau gael effaith. Yn 2018, roedd yr holl sector Llety yn cyfrannu £820 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru, a oedd gyfwerth â 1.3% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, roedd y sector yn cyflogi tua 32,000 ledled Cymru ac roedd 1,855 o ganghennau o fusnesau llety ledled Cymru.

O ran patrymau teithiau a wneir gan wahanol bartïon, mae hyn yn sefydlog dros amser, ond nid yw'n bosibl canfod pa gyfran sy'n dod o grwpiau aelwydydd cymysg. Ymwelwyr domestig dros nos i Gymru yn 2019:

18% teithwyr unigol
36% parti o 2
15% parti o 3
15% parti o 4
8% parti o 5
7% parti o 6-9

Felly, gan fod cyfran y teithiau a wneir gan grwpiau mawr yn fach, mae llacio'r cyfyngiadau yn debygol o gael effaith economaidd fach iawn. Fodd bynnag, bydd yr effaith hon yn fwy ar gyfer rhai is-sectorau sy'n gallu darparu ar gyfer grwpiau mawr/cymysg. Er enghraifft, roedd hostelau yng Nghymru, sydd wedi nodi cyfraddau defnydd cyson a chryf o welyau llawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac wedi nodi bod 54% yn defnyddio gwelyau yn 2019, wedi gweld dim ond 10% o welyau yn cael eu defnyddio ar gyfartaledd yn 2020, y byddai'r llacio hwn a'r rheoliadau cadw pellter cymdeithasol wedi effeithio'n fawr arnynt.

Mae'r llacio hefyd yn debygol o gael effaith ar werth y gwariant a wneir ar deithiau sy'n golygu aros yng nghartref ffrindiau a pherthynas. Yn 2019, roedd nifer a gwerth y teithiau hyn fel a ganlyn:

---

[2] Coronavirus and depression in adults, Great Britain - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

£165.9m
2.256m o deithiau
7.227m o nosweithiau

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Gallai'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n symud effeithio ar ansawdd aer wrth i bobl ddechrau teithio'n bellach yng Nghymru ac i Gymru. Bydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd a chapasiti cyfyngedig trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod mwy yn defnyddio cerbydau preifat a bydd llai yn rhannu ceir. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer pellteroedd hirach.

Gallai defnyddio mwy o fannau awyr agored hefyd gael effaith gadarnhaol ar agweddau a chanfyddiadau pobl o nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Gallai hyn helpu i atgyfnerthu manteision mesurau amddiffyn yr amgylchedd wrth i ni symud ymlaen o'r cyfyngiadau symud dros amser. Mae perygl hefyd o gael effeithiau amgylcheddol negyddol o ganlyniad i gael gormod o bobl mewn un lle a thaflu sbwriel, sydd wedi'i weld yn ddiweddar mewn mannau yng Nghymru a llawer o ardaloedd twristiaeth poblogaidd ledled Lloegr. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y newid i ddarparu bwyd a diod tecawê o ystyried y cyfyngiadau parhaus ar dafarndai, caffis a bwytai. Gallai negeseuon cyhoeddus ynghylch yr angen i weithredu'n gyfrifol i ddiogelu'r amgylchedd ac osgoi lleoedd gorlawn helpu i liniaru hyn ymhellach. Mae'n debyg y bydd problem barhaus gyda mwy o wastraff o fwyd a diod tecawê nes bydd y cyfyngiadau ar safleoedd cysylltiedig wedi'u llacio.

## Asesiadau Effaith

### *Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn caniatáu i unrhyw nifer o bobl o unrhyw nifer o aelwydydd gwrdd am unrhyw reswm dan do mewn lleoliadau preifat ac mewn llety gwyliau a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | *Cadarnhaol:* Bydd caniatáu i unrhyw nifer o bobl o wahanol gartrefi gwrdd am unrhyw reswm ym mhob lleoliad dan do ac yn yr awyr agored o fudd i'r rheini sydd wedi'u hynysu oddi wrth deulu a ffrindiau, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>*Negyddol:* Efallai fod pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni am fwy o risg o gynnydd yn nifer y bobl sy'n cwrdd dan do | Mae'r ymatebion i'r arolwg yn amlygu mai pobl iau (18-29 oed) sydd fwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl a theimlo'n ynysig.<br><br>Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a'r risgiau o ddal COVID-19, ond maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol.<br><br>Dangosodd arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod mwy o ymatebwyr rhwng 16 a 29 oed yn dweud eu bod yn teimlo'n unig yn aml, bob amser, neu weithiau. Mae Astudiaeth Gymdeithasol COVID-19 UCL hefyd yn dangos canlyniadau tebyg: yn wythnosau 36-37 (cyhoeddwyd | Dylai gohebiaeth a chanllawiau bwysleisio'r risgiau sy'n gysylltiedig â ffurfio aelwydydd estynedig fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus i'w ffurfio.<br><br>Dylid cyfleu'r cysyniad fel un sy'n ymwneud â gofal a chymorth fel y dylid ffurfio aelwydydd estynedig gyda'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Dangoswyd yn Seland Newydd bod hyn yn lliniaru effeithiau negyddol cael eich eithrio o aelwyd estynedig os deallir bod gan eraill fwy o anghenion.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
| --- | --- | --- | --- |
| | | 3 Rhagfyr), roedd lefelau unigrwydd yn sefydlog iawn yn y pythefnos diwethaf ond maent yn dal ychydig yn uwch (2%) nag oeddent dros yr haf cyn cyflwyno cyfyngiadau newydd. Mae’r cynnydd mwyaf yn yr wythnosau diwethaf wedi digwydd ymysg pobl sy’n byw ar eu pen eu hunain. Mae’r lefelau’n dal ar eu huchaf ymysg oedolion iau, menywod, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl o gartrefi incwm is, pobl sy’n byw gyda phlant, pobl sy’n byw mewn ardaloedd trefol, a phobl sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol.<br><br>Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | | hunanynysu ac yn poeni mwy am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael (arolwg llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru).<br><br>O ran cyflogeion, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ymysg pobl 16-24 oed. Blynyddoedd. Er nad oes data ar gyfer ffeiriau yn benodol ar gael, gallai eu hailagor arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad pobl ifanc petai'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael cyflog llawn wrth iddynt gael eu trosglwyddo oddi ar ffyrlo). | |
| Anabledd (ystyriwch y | **Cadarnhaol**: bydd pobl anabl | Mae adborth gan ofalwyr yn | Cyhoeddi canllawiau ar ailagor y sector lletygarwch yn ddiogel, |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| model cymdeithasol o anabledd[3] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o namau yn anabl) | nad oes angen iddynt fod wedi cael gafael ar ddarpariaethau dan gymorth a gofal yn gallu cwrdd yn gymdeithasol â ffrindiau a theulu ychwanegol dan do.<br><br>**Cadarnhaol**: bydd gwisgo masgiau wyneb yn llai aml yn helpu'r rheini sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau fel rhan allweddol o'u dulliau cyfathrebu.<br><br>**Negyddol:** Mae ystadegau'n dangos bod pobl anabl wedi ffurfio canran fawr ac anghymesur (68%) o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19. Yn ogystal â'r risg uwch o | dangos diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer rhai grwpiau, fel y rheini sy'n gofalu am rai sydd â nam dysgu, awtistiaeth, neu ddementia, sy'n llai abl i ddeall ac ymdopi â digwyddiadau sy'n tarfu ar drefn arferol.<br><br>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn awgrymu bod mwy o bobl anabl yn cael eu cynrychioli mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru, gyda 19% o'r gweithlu'n cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | ynghyd â chyngor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr<br><br>Bydd llywodraethau lleol yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried estyniadau i dir y cyhoedd.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol.<br><br>Roedd "Canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer ailagor yn raddol ac yn ddiogel" Llywodraeth Cymru yn rhoi nodiadau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch er mwyn ystyried hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer busnesau twristiaeth, e.e. i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i weithdrefnau archebu neu sut bydd y gyrchfan yn helpu pobl anabl er mwyn iddynt allu parhau i gael mynediad i'r lleoliad mewn ffordd ddiogel. Enghraifft arall yw darparu gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr â nam ar eu golwg cyn ymweliadau ynghylch newid mynediad i adeiladau neu safleoedd a llwybrau ymwelwyr newydd a mwy cymhleth ac yn gyffredinol drwy wneud yr holl wybodaeth i ymwelwyr yn hygyrch |

[3] Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond gan y rhwystrau maent yn eu hwynebu mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch ar y fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | farwolaeth, i rai pobl sydd â nam, mae'n bosibl y bydd risg o COVID-19 yn achosi cymhlethdodau gyda chyflyrau presennol, neu eu gwaethygu. Yn ogystal â mwy o risgiau i iechyd ac oherwydd hynny, mae'n bosibl y bydd pobl anabl yn poeni am wynebu mwy o risgiau wrth gymysgu â mwy o bobl ac yn dewis peidio â chymdeithasu pan fydd cyfyngiadau gorfodol yn cael eu codi ymhellach ar lefel 0, gan arwain at ynysu a chyfyngu eu hunain, yn enwedig os bydd mesurau diogelu fel cadw pellter a gwisgo masgiau yn cael eu dileu. | Wrth i ragor o safleoedd ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mynediad gwell at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. Wrth gwrs, **ni** fydd y budd cadarnhaol posibl hwn yn berthnasol i bobl anabl sy'n teimlo bod angen iddyn nhw osod cyfyngiadau ychwanegol arnyn nhw eu hunain oherwydd eu bod yn teimlo eu bod mewn perygl o COVID-19 yng nghyd-destun llai o gyfyngiadau a | Mae'r canllawiau hefyd yn datgan bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais. |

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol** | **Crynodeb o'r asesiad** | **Camau lliniaru (arfaethedig)** |
|---|---|---|---|
| | | mesurau diogelu. | |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a Phobl Drawsryweddol)* | ***Cadarnhaol****:* Efallai fod y cyfyngiadau wedi cyfyngu ar y gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth a fyddai'n cael effaith negyddol ar lesiant. | *Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol* | *Amh* |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | ***Cadarnhaol:*** Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gwrdd ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu unigrwydd, teimlo'n ynysig neu'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth. | *Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol* | *Amh* |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mewnfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)* | ***Cadarnhaol****:* Dim effeithiau gwahaniaethol penodol ar aelwydydd<br><br>***Negyddol****:* Mae'n hysbys bod unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r | | Gweithgareddau cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i grwpiau gwahanol a'r angen parhaus i bawb barhau i ddilyn canllawiau fel cadw pellter cymdeithasol a sicrhau hylendid da. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch llacio'r cyfyngiadau.<br><br>***Cadarnhaol***: Mae tystiolaeth gan BAWSO yn dangos eu bod, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021, wedi cefnogi 49 o ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod o'i gymharu â 151 o ddioddefwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Yn ôl ffigurau llywodraeth y DU, mae nifer y gorchmynion gwarchod rhag priodasau dan orfod a roddwyd yng Nghymru wedi gostwng ers dechrau'r pandemig, gan symud o 60 yn 2019 i lai na phump yn 2020. | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | ***Negyddol***: Gallai llacio’r cyfyngiadau ar deithwyr rhyngwladol sy’n dychwelyd i Gymru, yn gyson â dull gweithredu’r DU ac yn gysylltiedig â’r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu, olygu bod cynnydd yn y rheini sy’n cael eu tynnu allan o’r DU at ddibenion priodi dan orfod. | | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | ***Cadarnhaol***: Mae Mannau Addoli wedi cael bod ar agor ers tro ac mae’r rhan fwyaf o weithgareddau addoli wedi gallu digwydd gan gynnwys pethau fel canu cynulleidfa, bedydd, a Langar (darparu prydau elusennol mewn Sikhiaeth). Fodd bynnag, mae llawer o’r pethau hyn wedi cael eu | Nid yw data ar grefydd ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid yn cael ei gasglu drwy arolygon swyddogol. Treuliwyd ychydig o amser yn chwilio drwy dystiolaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd berthnasol ar gael na data procsi ar brofiadau ac ymddygiadau teithio’r grŵp hwn. | Cyhoeddi canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chyngor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau’r risg o drosglwyddo lle nad yw’n bosibl cadw pellter o 2 fetr.<br><br>Bydd darpariaethau ar gyfer asesiadau risg a mesurau rhesymol i leihau’r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws a’i ledaeniad yn parhau i liniaru’r risgiau hyn. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | cyfyngu o ran natur oherwydd goblygiadau cadw pellter corfforol a gwisgo masgiau. Byddai cael gwared â'r rhwystrau hyn yn debygol o wella'r profiad o addoli a dod ag ef yn nes at ddangos ffydd (fel Hawl Dynol) y mae addolwyr wedi arfer ei wneud.<br><br>Wrth i'r capasiti gynyddu, byddai cymunedau ffydd yn elwa os yw'r gynulleidfa wedi bod yn rhy fawr i ffitio yn y mannau addoli sydd ar gael. Byddai hyn yn cael effaith benodol ar Fwslimiaid a chymunedau tebyg.<br><br>Nid yw cadw dyletswydd i asesu risg ar gyfer trefnwyr mannau addoli | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | yn debygol o gael fawr o effaith negyddol gan fod grwpiau'n gyfarwydd â'r cyfrifoldeb hwn o brofiad diweddar.<br><br>***Negyddol***: Mae siawns y gallai rhai ymatebwyr sydd, neu a allai deimlo, yn arbennig o agored i COVID-19 deimlo'n llai abl i addoli mewn amgylchedd lle mae arferion yn llai diogel o ran COVID-19. Gallai hyn gael effaith benodol ar gydraddoldeb yng nghyswllt oedran ac anabledd. Ar hyn o bryd, yn naturiol, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i ddilysu'r pryder hwn. | | |
| *Rhyw / Rhywedd* | ***Cadarnhaol****:* Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n | Mae mwyafrif y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n darparu gofal, | Cyhoeddi canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chyngor ar fesurau lliniaru ychwanegol i |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, a gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau.<br><br>***Cadarnhaol***: mae cyfran y gweithwyr yn y sector lletygarwch sy'n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer y gweithlu cyfan yng Nghymru, felly gallai gael effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU.<br><br>***Cadarnhaol***: Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cofnodi | boed hynny'n gyflogedig neu'n ddi-dâl, yn fenywod, ac maent yn fwy tebygol na dynion o ddarparu cymorth di-dâl yn y cartref (Grŵp Cyllideb Menywod, COVID-19: Materion Rhywedd a Chydraddoldeb).<br><br>Gofalwyr sy'n gweithio, a fydd yn gorfod cydbwyso gwasanaethau lleol sy'n dychwelyd a gofalu am rywun sy'n agored i niwed. (*Carers UK*).<br><br>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn | leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr.<br><br>Bydd y pecyn o fesurau (wedi'u llacio'n weddol) yn Haen 1 i gyd yn darparu mynediad at ragor o fathau o gymorth i fenywod y mae ei angen arnynt. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | lefelau is o lesiant meddyliol o ganlyniad i’r ffaith nad ydynt yn gallu parhau â’u gweithgareddau rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gallai llacio cyfyngiadau yn y sector lletygarwch helpu i fynd i’r afael â theimladau is o ran llesiant.<br><br>***Cadarnhaol*****:** Er nad yw gwybodaeth ar gael yn benodol ar gyfer ffeiriau, fel arfer mae twristiaeth yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor dylent helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy’n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu | cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru.<br><br>Mae canfyddiadau’r arolwg yn awgrymu y gallai menywod elwa o ailgydio mewn rhyngweithio cymdeithasol ‘normal’ fel pryd o fwyd gyda ffrindiau neu deulu/teulu estynedig, a allai wella lles seicolegol.<br><br>Bydd cyfleoedd i ddychwelyd i weithio yn helpu i leihau'r pryderon sy’n gysylltiedig â’r cyfyngiadau symud, gan gynnwys pryderon ariannol.<br><br>Mae arolygon yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu, o boeni’n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo’n | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).<br><br>**Cadarnhaol:** Mae menywod yn dueddol o fod yn bennaf gyfrifol am roi gofal, gan gynnwys i blant yn ystod gwyliau'r ysgol. Dylai mynediad at fwy o fwynderau wella profiad plant a llesiant gofalwyr.<br><br>**Cadarnhaol:** Bydd codi cyfyngiadau ar ddigwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored yn ogystal ag ar fusnesau sy'n weddill yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddioddefwyr VAWDASV ddatgelu cam-drin.<br><br>Mae tystiolaeth yn dangos bod adroddiadau i'r heddlu am ddigwyddiadau o drais rhywiol wedi gostwng | bryderus ac o deimlo'n ynysig. Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsg. | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | yn ystod y pandemig, sy'n gyson â throseddau treisgar eraill a gofnodwyd gan yr heddlu.<br><br>***Negyddol***: Gallai codi cyfyngiadau ar symudiadau cyffredinol, digwyddiadau a'r economi gyda'r nos gynyddu digwyddiadau VAWASV | | |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)* | Cadarnhaol: Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, a gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau.<br><br>Cadarnhaol: mae cyfran y gweithwyr yn y sector lletygarwch sy'n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer y gweithlu cyfan yng Nghymru, felly | Efallai y byddant yn elwa o allu ymgymryd â gweithgareddau 'normal', gan gynnwys cymdeithasu'n ddiogel ac yn gyfrifol gyda ffrindiau a rhwydweithiau cymorth gan gyfoedion, yn enwedig os ydynt wedi bod 'dan glo' ar eu pen eu hunain neu mewn cartref heb gefnogaeth. | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | gallai gael effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU.<br><br>Cadarnhaol: Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cofnodi lefelau is o lesiant meddyliol o ganlyniad i'r ffaith nad ydynt yn gallu parhau â'u gweithgareddau rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gallai llacio cyfyngiadau yn y sector lletygarwch helpu i fynd i'r afael â theimladau is o ran llesiant. | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol: Er nad yw gwybodaeth ar gael yn benodol ar gyfer ffeiriau, fel arfer mae twristiaeth yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor dylent helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy’n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i’w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).<br><br>Cadarnhaol: Mae menywod yn dueddol o fod yn bennaf gyfrifol am roi gofal, gan gynnwys i blant yn ystod gwyliau’r ysgol. Dylai mynediad at fwy o fwynderau wella profiad plant a llesiant gofalwyr. | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol: Bydd codi cyfyngiadau ar ddigwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored yn ogystal ag ar fusnesau sy'n weddill yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddioddefwyr VAWDASV ddatgelu cam-drin.<br><br>Mae tystiolaeth yn dangos bod adroddiadau i'r heddlu am ddigwyddiadau o drais rhywiol wedi gostwng yn ystod y pandemig, sy'n gyson â throseddau treisgar eraill a gofnodwyd gan yr heddlu.<br><br>Negyddol: Gallai codi cyfyngiadau ar symudiadau cyffredinol, digwyddiadau a'r economi gyda'r nos gynyddu digwyddiadau VAWASV | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | **Cadarnhaol:** Mae tystiolaeth gan BAWSO yn dangos eu bod, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021, wedi cefnogi 49 o ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod o'i gymharu â 151 o ddioddefwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Yn ôl ffigurau llywodraeth y DU, mae nifer y gorchmynion gwarchod rhag priodasau dan orfod a roddwyd yng Nghymru wedi gostwng ers dechrau'r pandemig, gan symud o 60 yn 2019 i lai na phump yn 2020.<br><br>***Negyddol***: Gallai llacio'r cyfyngiadau ar deithwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd i Gymru, yn gyson â dull gweithredu'r | Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n unig (unigrwydd cronig ac unigrwydd 'cyfnod clo') (arolwg barn a ffordd o fyw ONS, Mai 20).<br><br>Fodd bynnag, wrth i ragor o leoliadau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol o fwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau, a ddylai wella llesiant. | *Amh* |

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol** | **Crynodeb o'r asesiad** | **Camau lliniaru (arfaethedig)** |
|---|---|---|---|
| | DU ac yn gysylltiedig â'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu, olygu bod cynnydd yn y rheini sy'n cael eu tynnu allan o'r DU at ddibenion priodi dan orfod. | | |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | *Cadarnhaol:* Mae plant dan 11 oed yn cael eu heithrio o'r cyfyngiad cwrdd mewn chwech o bobl.<br><br>**Cadarnhaol**: os bydd rhieni'n dychwelyd i weithio, gallai hynny fod yn arwydd o ddychwelyd i fywyd 'normal' a galluogi rhieni i ddarparu'n well ar gyfer eu plant.<br><br>**Negyddol**: os bydd rhieni'n dychwelyd i weithio, gallai hynny achosi teimladau o bryder lle bu cyswllt sylweddol o ganlyniad i'r | Mae'r arolwg '[Coronafeirws a Fi]' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).<br>Y ddau brif fater i blant (12-18) sy'n ymwneud â chyfyngiadau yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) | AMH |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Asesiad o effaith: cadarnhaol neu negyddol | Crynodeb o'r asesiad | Camau lliniaru (arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | cyfyngiadau symud. | | |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd.  Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd.  Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.  Er gwaethaf y cyfyngiadau symud parhaus, yn gyffredinol mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | *Cadarnhaol*: bydd cael gwared ar y cyfyngiadau ar gwrdd â phobl eraill dan do yn hwyluso perthnasoedd teuluol yn sgil y cyfyngiadau sy'n cael eu gosod gan y llywodraeth. | Roedd y cyfyngiadau'n seiliedig ar resymau iechyd y cyhoedd ac mae'r broses asesu ac adolygu'n ceisio dileu'r rhain cyn gynted â nad ydynt yn gymesur mwyach. Mae'r broses hon wedi arwain at y cynnig i godi'r cyfyngiad hwn. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiadau ar gwrdd y tu allan. Bydd y mesur llacio hwn yn lliniaru'r cyfyngiadau ar blant hŷn ac yn caniatáu iddynt gwrdd â rhagor o'u ffrindiau ar yr un pryd. Bydd yr hawliau hyn yn dal i gael eu cyfyngu gan yr angen i atal y feirws rhag lledaenu a diogelu iechyd y cyhoedd (ee cadw pellter corfforol parhaus).

Mae'r arolwg Coronafeirws a Fi o 23,700 o blant yng Nghymru yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn sail i ddewisiadau polisi (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried). Mae'r arolwg wedi canfod mai'r ddwy reol aros gartref sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut mae pobl ifanc (12-18 oed) yn teimlo yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%). I lawer, mae wedi bod yn bleser treulio mwy o amser gyda'r teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r awyr agored mewn gerddi ac wrth ymarfer corff dyddiol.

I rai, mae'r cyfnod hwn hefyd wedi dod â rhyddhad o bwysau cymdeithasol ac iechyd blaenorol fel anawsterau iechyd meddwl neu fwlio.

*Yr Iaith Gymraeg*

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai'r gallu i gwrdd â phobl o hyd at bum aelwyd y tu allan gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

### ii. Lleoliadau adloniant i oedolion a chlybiau nos

Mae angen i Weinidogion ystyried yr ystyriaethau isod wrth wneud penderfyniad terfynol. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried i ba raddau y gallai cyfyngiad fod yn anghymesur oherwydd ei effaith ehangach ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac yn adlewyrchu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae tystiolaeth yr arolwg yn rhoi ciplun o lesiant meddyliol ledled Cymru wrth i'r cyfyngiadau barhau. Dangosodd A*rolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws Iechyd Cyhoeddus Cymru*, ar gyfer wythnos 21 i 27 Mehefin, fod 14% yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl (36%), a 33% yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn waeth nag oedd cyn y pandemig.[4] Cyhoeddodd yr elusen iechyd meddwl Mind dystiolaeth arolwg y llynedd yn awgrymu bod dros hanner yr oedolion a'r bobl ifanc yn y DU wedi gweld dirywiad yn eu hiechyd meddwl wrth i'r cyfyngiadau aros ar waith, gyda'r effaith yn waeth ar oedolion ifanc.[5]

Mae wedi'i sefydlu bod diweithdra'n gysylltiedig â lefelau llesiant isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol os byddant yn ymuno â'r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Ceir tystiolaeth academaidd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effaith gydol oes ar economi, iechyd, llesiant a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.[6]

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

*Arwyddocâd economaidd y sector*

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod* wedi cyfrannu £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru yn 2018, a oedd gyfwerth â 2% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data'r Arolwg Cyflogaeth a'r Gofrestr Busnes (BRES), amcangyfrifwyd bod 85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch – Tafarndai, Caffis a Bwytai' yng Nghymru, 6.7% o gyfanswm y gyflogaeth.[7] Roedd 6,000 o'r swyddi hyn mewn clybiau trwyddedig.[8]

Mae'r sector lletygarwch hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaen. Mae cwmnïau lleol yn aml yn prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae'n amlwg bod cau'r sector lletygarwch yn effeithio ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r

---

[4] Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Lles yn ystod mesurau'r Coronafeirws 21-27 Mehefin Iechyd Cyhoeddus Cymru

[5] Mind (2020) The mental health emergency: How has the coronavirus pandemic impacted our mental health?

[6] Darllenwch: https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk

[7] Diffiniwyd SIC2007 cod 2-ddigid (56) Gweithgareddau gwasanaeth Bwyd a Diod hy bwytai, caffis, bwyd tecawê, tafarndai / bariau, clybiau, ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau

[8] Diffiniwyd fel SIC2007 cod 56301 Clybiau Trwyddedig (gan gynnwys clybiau nos a chlybiau cymdeithasol)

llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn mynd i'r sector lletygarwch yn gyffredinol. Er bod y defnydd domestig wedi codi 15%, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod camu i mewn i gefnogi ffermwyr o ganlyniad i hynny.

Yn 2019, roedd 22% o deithiau hamdden domestig 3+ awr yn golygu mynd allan am bryd o fwyd, ac ar gyfer 9% o'r holl ymweliadau (13.5 miliwn o deithiau, gyda gwariant cysylltiedig o £500m) dyma oedd prif reswm y daith. Roedd 19% yn golygu mynd ar noson allan i dafarn neu i glwb, ac ar gyfer 10% o'r holl ymweliadau (15.2 miliwn o deithiau, gyda gwariant cysylltiedig o £449m) dyma oedd prif reswm y daith. Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys pob rhan o'r daith hamdden, ac nid oes data ar gael ar gyfer gwariant ar fwyta ac yfed yn benodol. Ar gyfer teithiau dros nos i Gymru, roedd gwariant uniongyrchol ar fwyta ac yfed allan yn ystod 2019 yn £428m, 28% o gyfanswm cost y trip, ar gyfartaledd.[9]

*Effeithiau economaidd cyffredinol*

Gostyngodd Cynnyrch Domestig Gros (GDP) blynyddol y DU 9.9% yn 2020, gwelodd y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden ostyngiad o 26%, er bod gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod wedi bownsio'n ôl yn ystod mis Awst 2020.

Mae Arolwg Canfyddiadau ac Amodau Busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol (BICS) yn rhoi cipolwg ar effeithiau cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd* yn gyffredinol.[10] Ynghyd â'r *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden*, mae'n un o'r meysydd yn economi'r DU y mae'r pandemig iechyd a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi effeithio waethaf arnynt; o ganol mis Mehefin roedd 9 o bob 10 o fusnesau llety a gwasanaethau bwyd y DU yn masnachu, yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer busnesau yn y DU yn gyffredinol[11]. Yn ôl y disgwyl, mae'r ddau sector hyn yn dal i adrodd am y gostyngiadau mwyaf mewn trosiant busnes, gyda hanner busnesau llety a gwasanaethau bwyd y DU yn dweud bod eu trosiant wedi gostwng, o'i gymharu â 3 o bob 10 busnes yn y DU yn gyffredinol.

Oherwydd natur tafarndai, caffis a bwytai, mae'n bosibl y bydd llawer o'r galw (a'r refeniw cysylltiedig) sydd wedi'i golli ers i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith wedi cael ei golli heb fodd ei adfer ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Mae'r busnes a

---

[9] Ffynhonnell: GBTS, 2019. Dadansoddiad mewnol

[10] Yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 18 Mai a 31 Mai.

[11] Roedd canran y busnesau yn y DU a ddywedodd eu bod yn parhau i fasnachu yn 91% ar gyfer y sector Llety a Gwasanaethau Bwyd a 93% ar gyfer y sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden. 88% oedd cyfartaledd pob sector yn y DU.

gollwyd yn y sector hwn yn annhebygol o gynyddu a chael ei ryddhau (galw wedi cronni) mewn ffyrdd y mae modd eu rhagweld ar gyfer sectorau eraill fel rhai sydd, er enghraifft, yn gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau.

### Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Hyd at 31 Mehefin 2021, sicrhaodd y CJRS petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, bod Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflog arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu ato yn ôl eu disgresiwn). Yn arolwg BICS ar gyfer 5-18 Ebrill, roedd 6% o weithwyr y DU ar ffyrlo, o'i gymharu â 13% o weithwyr llety a gwasanaethau bwyd a 18% o weithwyr y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden (y diwydiant yr effeithiwyd waethaf arno yn ôl adroddiadau). O 1 Gorffennaf ymlaen, mae lefel grant CJRS wedi gostwng i gyllido 70% o incwm cyflog arferol gweithwyr ac o 1 Awst ymlaen bydd yn gostwng i 60%.

I lawer o bobl yng Nghymru, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm eu haelwyd. Mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod 14% o bobl mewn sefyllfa ariannol waeth o ganlyniad i'r coronafeirws, ac mae 21% yn dweud eu bod yn well eu byd.[12] Mynegwyd pryderon bod y coronafeirws yn cael effaith niweidiol ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig y rheini y mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws yn yr un ffordd ag y bydd aelwydydd mwy cyfoethog yn gallu ei wneud, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau gan ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a chronni dyledion.[13] Mae'r rheini sydd ar incwm is wedi bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn cael ei leihau, ac mae gweithwyr ar gyflogau is wedi bod yn fwy tebygol na'r rheini sydd ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu fod wedi colli eu swyddi.[14]

### Y Gweithlu

Mae'r gweithlu twristiaeth a lletygarwch yn y ddau faes o'r economi sy'n tueddu i gynnwys cyfran anghymesur o bobl sydd wedi cael addysg is, pobl iau, Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac maent yn ennill cyflogau sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru (canolrif) – mae llawer o'r rhain yn grwpiau sydd fel arfer yn

---

[12] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Lles yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 64: 21-27 Mehefin 2021.
[13] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.
[14] Resolution Foundation: Incymau, cynilion a gwariant drwy argyfwng y coronafeirws Tachwedd 2020

profi'r effeithiau cyson gwaethaf ar eu hiechyd, eu henillion, a'u potensial cyflogaeth o ganlyniad i ddirywiad economaidd.

**Cadwyn gyflenwi / gwerth lletygarwch i economi Cymru**

Yn 2018, roedd yr holl sector gwasanaethau bwyd a diod werth £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru. Roedd hyn gyfwerth â 2% a 1.2% yn y drefn honno o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Er nad yw ystadegau llif nwyddau marchnad mewnol y DU ar gael, mewn sawl achos bydd lletygarwch Cymru yn prynu cynnyrch a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu'n uniongyrchol gan gwmnïau yng Nghymru, felly mae'n debygol y bydd manteision cadwyn gyflenwi i lefelau uwch o weithgarwch economaidd yn cael eu caniatáu yn y sector – ond nid oes modd mesur yr effaith honno.

<u>EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL</u>

Mae tafarndai, caffis a bwytai, clybiau nos a lleoliadau adloniant rhywiol i gyd yn feysydd lle mae'n rhaid i weithwyr a defnyddwyr deithio i safleoedd busnes i weithredu. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae agor y sector yn siŵr o gynyddu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol wrth gymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

<u>RHYNGDDIBYNIAETHAU GALLUOGWYR</u>

*Gofal plant*

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod 11,400 o oedolion yn cael eu cyflogi yn y sector tafarndai a bwytai – sy'n cynnwys clybiau nos a SEVs? sydd â phlant 16 oed ac iau.  Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ddadansoddiad sy'n ein galluogi i ddeall faint o'r rhain y gallai fod angen trefniadau gofal plant ffurfiol arnynt er mwyn gallu dychwelyd i'r gwaith.

*Trafnidiaeth*

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15 yn cofnodi'r dull o deithio a ddefnyddir gan bobl i deithio i dafarndai, caffis ac ati. Dangosodd fod 47% (heb fod

yn gyfan gwbl) o bobl yn defnyddio car fel dull arferol o deithio i dafarndai, caffis a bwytai, roedd 43% yn cerdded, roedd 8% yn defnyddio bysiau ac roedd 9% yn defnyddio tacsis. Mae hyn yn codi problem bosibl y mae angen ei hystyried, sy'n ymwneud â'r risg bosibl o gynnydd mewn troseddau gyrru dan ddylanwad diod os bydd pobl yn dewis peidio neu'n peidio â chael defnyddio tacsis (oherwydd rheolau cadw pellter) ar ôl yfed alcohol. Mae potensial hefyd ar gyfer mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion yn ymwneud â threfn gyhoeddus wrth i yfed gormod o alcohol achosi problemau i staff trenau/bysiau a gyrwyr tacsis/cerbydau hurio preifat.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau awyr agored nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb mynediad.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran)* | Cadarnhaol: Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn llawer mwy tebygol o weithio mewn clybiau nos yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai eu hagor gael effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | Swyddi'r DU. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd.<br><br>Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | | anghymesur i grwpiau penodol. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | Cadarnhaol: Mae'r boblogaeth anabl yng Nghymru yn cynrychioli cyfran uwch o'r gweithwyr yn y sector tafarndai a bwytai nag yn y gweithlu'n gyffredinol, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cyfran y bobl anabl sy'n gweithio mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd, gyda 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gwblhau Asesiad Effaith Integredig.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Phobl Drawsryweddol)* | | | |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Negyddol: Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at ddefnyddio llefydd i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau. | Amh | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gwblhau Asesiad Effaith Integredig. |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mewnfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)* | Cadarnhaol: Mae'r boblogaeth o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o weithio yn y sector lletygarwch yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector gael effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU.<br><br>Negyddol: Mae'n bosibl bod pobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu risg | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 12% o weithwyr mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn dod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y bydd angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal COVID-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Rhyw / Rhywedd* | Cadarnhaol: mae cyfran y gweithwyr yn y sector sy'n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | AMH | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | AMH | Amh |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | Negyddol: Gallai oedolion a gyflogir mewn tafarndai, caffis, clybiau nos a bwytai fod â chyfrifoldebau gofal plant. Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud cyfredol wedi amharu ar fathau | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytai blant o dan 16 oed. | Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | traddodiadol o ofal plant. | | i safleoedd ffisegol i weithio. |
| *Aelwydydd incwm isel* | Cadarnhaol: Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi. | Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru.<br><br>Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod **o leiaf** 80% o weithwyr **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau symud parhaus, yn gyffredinol mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | Cadarnhaol: bydd caniatáu i glybiau nos ac SEVs ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith. | Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Mae agor lletygarwch dan do yn cefnogi'r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae lletygarwch dan do yn rhan o'r profiadau a chyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

*Y Gymraeg*

Mae 150,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 12% o'r gweithlu. Mae'r economi yn hanfodol i greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd sy'n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am incwm a chyflogaeth.

Bydd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael budd o'r ffaith bod busnesau lletygarwch yn cael ailddechrau gweithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.